OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 452

## Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaeth Arbed) (Cymru) 2016

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf (sy'n gwneud diwygiadau i Ddeddf Plant 1989(**1**)) i rym o ran Cymru ar 6 Ebrill 2016—

(a) adran 8(1)(**2**) (darparu llety a chynhaliaeth i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym);

(b) adran 8(2) i'r graddau y mae'n ymwneud ag Atodlen 1, paragraffau 1, 2, 3(1), (2) a (3), 5, 6, 15, 16, 17, 18 ac 21;

(c) adran 10(1) a (3)(**3**) (swyddogion adolygu annibynnol) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac Atodlen 4 (diddymiadau) i'r graddau y mae'n ymwneud â diddymu adran 26(2)(k) a (2A) i (2D) o Ddeddf Plant 1989;

(d) adran 16(**4**) (ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol) (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym).

(**1**) 1989 p. 41.
(**2**) Cychwynnwyd adran 8 yn rhannol gan erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010 (2010/749 (Cy. 77) (C. 51)) ac yn rhannol gan erthygl 2(a) a (b) o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2010 (2010/1329 (Cy. 112) (C. 81)) ("Gorchymyn Cychwyn Rhif 4").
(**3**) Cychwynnwyd adran 10 yn rhannol gan Orchymyn Cychwyn Rhif 4.
(**4**) Cychwynnwyd adran 16 yn rhannol gan Orchymyn Cychwyn Rhif 4.